Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Myrddin**

**Yr Atom**
**16-18 King Street**
**Carmarthen**
**SA31 1BH**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn âCylch Meithrin Myrddin

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Person Cofrestredig | Carys Augustus |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [30 Tachwedd 2017] |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | [Na] |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n hapus a'n ddiogel yn y cylch. Mae ganddynt llais cryf ac maent yn hyderus wrth ddewis a dethol adnoddau. Mae rhyngweithio cadarn rhwng y plant a'r ymarferwyr. Mae'r plant yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu. Mae mwyafrif y plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth da.

Mae staff yn darparu gweithdrefnau da i sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach. Mae rhyngweithio cynnes a gofalgar rhwng y staff a'r plant. Mae staff yn bwydo a hybu'r iaith Gymraeg yn llwyddiannus ac yn cydnabod datblygiad a chamau nesaf y plant.

Mae'r arweinydd yn rhedeg gwasanaeth sydd yn lân, groesawgar, cynnes a diogel. Maent yn sicrhau amgylchedd hygyrch, addas ac yn darparu ardal tu fewn cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae arweinwyr yn darparu a threfnu adnoddau o safon da.

Mae'r arweinyddiaeth yn drefnus sy'n ymroddedig i ddarparu gofal o safon da. Mae systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod hunanwerthuso yn effeithiol. Mae arweinyddion yn sicrhau bod prosesau sefydlu da ar gyfer staff. Mae partneriaethau gyda rhieni a'r ardal leol yn effeithiol a llwyddiannus.

## **Llesiant** Da

Mae bron pob plentyn yn teimlo'n hapus a'n ddiogel yn y cylch. Wrth gyrraedd, maent yn ymgartrefu yn syth trwy chwarae a chyfathrebu gyda staff adnabyddus. Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu hunan hyder da iawn wrth chwarae. Gwelwyd plant yn gwenu wrth gael clod am "*chwarae yn dda*" ac am waith peintio da. Mae rhan fwyaf y plant yn ymfalchïo yn eu gwaith peintio trwy ddweud *"Ta da!!*" ac aelod staff yn ymateb gan ddweud bod y gwaith yn "*Arbennig!*" Mae plant yn gwenu wrth glywed eu henwau yn ystod amser cylch a chlywir plant yn canu 'Hei, Mr Urdd' yn hapus wrth chwarae.

Mae rhan fwyaf y plant yn dangos bod ganddynt lais cryf. Wrth i blant gyrraedd y cylch, gwelir nhw yn symud o un adnodd chwarae i'r llall yn hollol hwylus. Er enghraifft, roedd plant yn mynd ati i chwarae jig-sos ac eraill yn dewis chwarae gyda'r teganau fferm. Mae rhan fwyaf y plant yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt ac yn eu parchu. Gwelwyd plant yn mynd ati i 'nôl eu teganau cysur o'u bagiau yn naturiol ac roedd hyn yn cael ei barchu gan y staff. Enghraifft arall oedd plant yn gofyn i staff am basta i chwarae yn y gegin chwarae 'rôl. Wrth chwarae, mae bron pob plentyn yn hyderus iawn i ofyn am fwy o bapur i beintio lluniau o'u dewis, ac eraill yn dewis mynd ati i chwarae'n rhydd.

Mae rhyngweithio cadarn rhwng y plant, a'r staff. Mae bron pob plentyn yn mynd at staff yn gartrefol wrth chwarae. Mae plant yn dangos parch tuag at eu ffrindiau a'r staff. Er enghraifft, mae plant yn cynnig helpu staff gan ddweud *"Ga'i 'nôl y paent?*" Mae'r rhan fwyaf y plant yn gwrando a pharchu'r hyn mae staff yn dweud wrthynt. Er enghraifft, maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau pan bod staff annog nhw i olchi dwylo ar ol bod yn y tŷ bach, a chyn bwyta. Mae plant yn rhannu yn dda. Gwelwyd plant yn rhannu adnoddau coginio wrth chwarae rôl a chlywyd plant yn rhyngweithio'n hyfryd wrth chwarae siop gan ddweud *"Beth ti moin? Beth ti moin i fwyta?"*

Mae plant yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu. Maent yn hapus i chwarae yn annibynnol a gydag eraill. Gwelwyd plentyn yn cydio yn ffôn symudol a chael sgwrs ddychmygol gyda mam. Mae plant yn mwynhau chwarae gydag arian, gan chwarae rôl siopwr a chwsmer. Gwelwyd plant yn dewis prynu cacen a ffrwyth a'u rhoi yn eu bag siopa. Mae plant yn gwrando ac yn canolbwyntio am amser cynyddol da am eu hoed a'u gallu pan yn peintio enfys a lluniau o'r teulu. Mae bron pob plentyn yn mwynhau gwrando a chymryd rhan mewn stori am y tri mochyn bach ac yn efelychu 'Mr Blaidd' o'r stori yn frwdfrydig.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth da. Maent yn cyfrif yn Gymraeg wrth chwarae a defnyddio arian yn y siop. Mae'n yn defnyddio sgiliau datrys problemau wrth wneud posau. Mae plant yn adnabod lliwiau Cymraeg ac yn defnyddio sgiliau trefnu meintiau gwahanol wrth chwarae. Mae plant yn datblygu sgiliau annibynnol yn ystod amser byrbryd trwy arllwys llaeth eu hunain ac yn dewis bwydydd iachus.

## Gofal a Datblygiad **Da**

Mae staff yn darparu gweithdrefnau da i sicrhau bod y plant yn ddiogel a iach. Maent yn darparu bwyd iachus a maethlon i blant yn cynnwys ffrwythau, craceri a llaeth. Maent yn sicrhau bod y byrddau wedi eu diheintio a'u bod yn gwisgo ffedog a menig i baratoi bwydydd. Mae staff yn sicrhau bod nhw yn golchi dwylo a bod y plant yn golchi dwylo cyn bwyta. Mae gan staff ymwybyddiaeth o anghenion dietegol a meddygol y plant, ac mae cofnod o'r rhain yn glir ar y wal. Mae trefniadau newid cewynnau yn cwrdd â gofynion y polisi. Mae gan staff ddealltwriaeth da am weithdrefnau diogelu plant. Dangoswyd eu bod yn ymwybodol o'r trefniadau pe bai achos o ddiogelu yn codi. Mae staff yn cadw cofnodion o ddamweiniau. Er hyn, nid oes cofnod o ddamweiniau blaenorol sydd yn digwydd cyn mynychu'r cylch.

Mae rhyngweithio cynnes a gofalgar rhwng y staff a'r plant. Maent yn creu ethos cartrefol iawn i'r plant, ac yn sgil hyn, mae gan y plant ymdeimlad da o berthyn i'r lleoliad. Mae staff yn ystyried teimladau'r plant yn barhaol ac yn gwerthfawrogi eu hymatebion a'u barnau yn barhaus. Mae staff yn fodelau 'rôl da iawn. Maent yn annog y plant i fod yn gwrtais wrth fodelu cwrteisi wrth gyd-chwarae gyda phlant. Mae staff yn hybu hunan-hyder y plant yn dda. Er enghraifft, dywedwyd "*Da iawn"* i blant am roi darnau creaduriaid y môr yn y man cywir a rhoddwyd clod i blant oedd yn gweld hi'n anodd rhannu i ddechrau ac wedyn gwrando yn dda.

Mae staff yn bwydo a hybu'r iaith Gymraeg yn llwyddiannus. Er enghraifft, clywir staff yn cwestiynu a bwydo iaith wrth i'r plant drafod enwau bwydydd, cyfrif a thrafod lliwiau, a'r tywydd. Maent yn canu caneuon Cymraeg megis 'Mrs Wishi Washi' 'Bore da sut wyt ti' a 'Mr Hapus ydw i.' Mae ffordd hyfryd gan staff i gyfathrebu gyda'r plant a chlywir staff yn dweud wrth blant oedd ar fin gorffen peintio; "*Ti moin papur arall Twts?"* a'r plant yn cytuno. Er nad oes cofnod o ddatblygiad plentyn ar hyn o bryd, mae staff yn adnabod gallu pob plentyn yn dda ac yn cydnabod beth yw camau nesaf y plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth am anghenion addysgol ychwanegol yn unol â'r polisi. Mae staff yn defnyddio llais y plentyn a diddordebau'r plant er mwyn paratoi gweithgareddau a themâu tymhorol. Maent yn dathlu dathliadau blynyddol yn cynnwys rhai sy'n hybu ymwybyddiaeth y plant am y byd ehangach. Er enghraifft, storïau am fywyd yn India, Blwyddyn Newydd Tsieineaidd, Santes Dwynwen a Nadolig.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r arweinydd yn rhedeg gwasanaeth sydd yn lân, groesawgar, cynnes a diogel. Mae'r lleoliad yn cynnig lefel da o ddiogelwch. Mae'r gwasanaeth wedi ei leoli o fewn ganolfan gymunedol Gymraeg y dref. Er bod y gwasanaeth mewn lleoliad cymunedol, mae'r holl cyfleusterau sydd angen ar y staff a'r plant o fewn muriau'r cylch. Mae cyfleusterau tai bach, cegin ac ardaloedd chwarae yn ddiogel ac yn hybu annibyniaeth y plant. Mae'r drws sydd yn arwain i'r cylch wedi ei ddiogelu gyda system diogelu cadarn. Mae'r arweinydd yn cadw cofnod o ymwelwyr i'r cylch ac yn gwirio bathodynnau personol ymwelwyr. Maent yn rheoli a gwirio risgiau posib a chofnodion glanhau yn ddyddiol. Mae arweinwyr yn cadw asesiadau risg manwl ar yr adeilad ac maent wedi creu rhai manwl ar gyfer y cylch yn ystod yr arolwg, yn cynnwys asesiadau risg amgylcheddol a thân. Maent yn sicrhau bod tystysgrifau cynnal a chadw a chofnod manwl o ddriliau tân rheolaidd.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd hygyrch, addas ac yn darparu ardal tu fewn cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r ystafell chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant lle mae'r adnoddau ar lefel isel ac o fewn cyrraedd y plant. Mae nifer addas o doiledau ar gyfer y plant sydd yn mynychu, a chyfleusterau newid cewynnau sydd yn lân ac yn sicrhau preifatrwydd ac urddas y plant. Mae byrddau a chadeiriau ar lefel isel ar gyfer amser bwyd a gweithgareddau bwrdd. Nid oes ardal allanol penodol ar gyfer y cylch ar hyn o bryd, ond mae'r arweinwyr wedi trefnu cyfle i blant ddefnyddio ardal allanol y ganolfan yn yr Hydref i gasglu dail. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i fynd am dro yn yr ardal leol yn aml, er enghraifft i fynd i'r siop ac i ymweld â'r llyfrgell leol am sesiynau stori. Er hyn, does dim darpariaeth chwarae allanol penodol ar gyfer y cylch ar hyn o bryd.

Mae arweinwyr yn darparu a threfnu adnoddau o safon da. Mae nifer da o lyfrau ac adnoddau Cymraeg, a rhai sydd yn cynnwys moesau personol ac ymwybyddiaeth aml-ddiwylliannol. Mae arddangosfeydd yn lliwgar a deniadol yn hyrwyddo cymeriadau adnabyddus Cymreig. Ceir adnoddau chwarae 'rôl yn cynnwys, cegin, siop a gwisgo lan; chwarae byd bach anifeiliaid fferm, doliau ac uwch arwyr; traciau trên; pypedau, teganau adeiladu, tywod, pôsau a gêmau. Mae adnoddau corfforol yn cynnwys adnodd cydbwysedd, ioga a pheli ymarfer corff.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r arweinyddiaeth yn drefnus, profiadol ac yn rheoli'r gwasanaeth yn dda. Mae'r datganiad o ddiben yn darparu gwybodaeth berthnasol i rieni ac mae hwn wedi ei ddiweddaru yn ystod yr arolwg. Mae polisïau a gweithdrefnau yn eu lle. Er hyn, nid ydynt wedi eu gwirio yn flynyddol. Mae cytundebau'r plant a ffurflenni caniatâd yn eu lle, yn ogystal ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Mae cynllun gweithredu effeithiol wedi ei ddiweddaru yn ystod yr arolwg.

Mae'r plant a'r rhieni yn elwa o leoliad sy'n ymroddedig i ddarparu gofal o safon da. Mae systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod hunanwerthuso ffurfiol o'r wasanaeth yn cael ei gynnal yn flynyddol. Mae arweinwyr yn gweithredu ar adborth plant, rhieni, y pwyllgor a'r mudiad er mwyn creu targedau a gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae'r arweinydd a'r staff yn dîm agos, a llawn cymhelliant sydd yn mwynhau eu gwaith. Mae ffeiliau staff o ansawdd da ac yn cwrdd â gofion rheoliadol. Mae'r staff yn derbyn sesiynau goruchwylio rheolaidd ar lafar ac arfarniadau blynyddol sydd yn cael eu cofnodi ar bapur. Er hyn, nid yw sesiynau goruchwylio yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn digwydd ac mae cyfathrebu effeithiol iawn rhwng staff, arweinydd a'r pwyllgor. Mae'r arweinydd yn gymwys a phrofiadol, a'r aelod arall o staff yn gweithio tuag at orffen ei chymhwyster gofal plant.

Mae arweinyddion yn sicrhau bod prosesau sefydlu da ar gyfer staff sydd yn dechrau yn eu swyddi ac yn sicrhau bod hyfforddiant gofynnol yn ei le. Mae system glir ar waith i sicrhau bod gan staff wiriadau cyfredol gan Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Mae'r hyfforddiant diogelu, hylendid bwyd a chymorth cyntaf yn ei le. Er hyn, mae'r arweinydd yn aros am hyfforddiant cymorth cyntaf llawn er mwyn cwrdd â'r safonau gofynnol cenedlaethol.

Mae'r lleoliad wedi sefydlu cysylltiadau cyfathrebu da gyda phartneriaethau yn y sir, mudiad a lleoliadau eraill yn y gymuned leol. Mae rhieni yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth hon. Maent yn teimlo bod eu plant yn hapus iawn ac yn edrych ymlaen i ddod i'r cylch yn ddyddiol. Mae rhieni yn teimlo bod iaith Gymraeg yn cael ei annog yn effeithiol iawn. Maent yn ymwybodol o'r polisïau ac yn teimlo bod nhw yn ymwybodol o'r hyn sydd yn digwydd yn y cylch. Mae'r arweinydd wedi trefnu bod y plant yn mynd i'r llyfrgell leol, wedi bod i'r ŵyl feithrin yn yr Ardd Fotaneg a caffi lleol. Maent yn cymryd rhan i godi arian tuag at elusennau ac yn rhan o ddathliadau sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg megis 'Parti Mr Urdd' ac wedi ymuno gyda cylch arall lleol i ymweld â Siôn Corn cyn y Nadolig.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad (argymhellion) |
| Standard 5 - Records | Sicrhau bod damweiniau blaenorol yn cael eu cofnodi a'u harwyddo gan rhieni |
| Standard 7 - Opportunities for play and learning | Datblygu ardal allanol i blant cael cyfleoedd chwarae yn yr awyr agored |
| Standard 14 - Organisation | Datblygu system o recordio sesiynau goruchwylio staff a datblygu system o adolygu polisïau a gweithdrefnau yn rheolaidd |
| Standard 10 - Healthcare | Sicrhau bod hyfforddiant cymorth cyntaf yn cwrdd a gofynion y safonau gofynnol cenedlaethol |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/04/2024